Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dihewyd
# Dihewyd
# Llanbedr Pont Steffan
# Ceredigion
# SA48 7PN

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Dihewyd

Lleolir Ysgol Dihewyd ym mhentref Dihewyd, ger Llanbedr Pont Steffan, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae 29 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 39% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol wedi adnabod 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol o 21%. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2011. Mae ganddo gyfrifoldeb dros ysgol arall gyfagos ac mae'n rhannu ei amser rhwng y ddwy ysgol. Arolygwyd Ysgol Dihewyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg yn effeithiol ac maent yn cyflawni'n dda ar lafar. Mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen a'u hysgrifennu, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf ohonynt yng nghyfnod allweddol 2 yn adlewyrchu eu haeddfedrwydd, wrth iddynt drafod, darllen a chyflwyno gwaith ysgrifenedig yn hyderus. Ychydig o ddisgyblion sy'n ymddangos eu gwir alluoedd yn llwyddiannus wrth ysgrifennu'n ymestynnol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau rhifedd pwrpasol ac yn eu defnyddio'n dda mewn gweithgareddau dyddiol fel gwario arian a dweud yr amser. Mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gadarn, yn enwedig erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r athrawon a'r cymhorthydd yn gofalu am eu disgyblion yn synhwyrol a chydwybodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn teimlo bod yr ysgol yn rhan bwysig o'u cymuned. Yn ogystal, maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae'n cydweithio'n agos iawn gyda'r pennaeth cynorthwyol a'r llywodraethwyr deallus ac ymroddgar. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda ac yn canolbwyntio ar wella'r meysydd i'w datblygu yn drwyadl, trwy weithdrefnau gwella ansawdd defnyddiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig wrth ysgrifennu’n estynedig

A2 Gwella medrau gwrando ychydig o ddisgyblion

A3 Sicrhau bod addysgu’r athrawon yn gosod her briodol i bob disgybl

A4 Sicrhau bod y tîm arweinyddiaeth newydd yn gweithredu’n brydlon i dargedu gwelliannau i’r ddarpariaeth a chyflawniadau disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sydd yn is na'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol i wneud cynnydd da. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau llafar. Maent yn hyderus ar lafar yn y Gymraeg ac yn esbonio eu gwaith yn synhwyrol, fel disgrifio cylchoedd canolog Kandinsky. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed, er enghraifft wrth iddynt drafod erchylltra'r ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a dyddiadur milwr, sy'n sôn am ei brofiadau yno.

Mae llawer yn gwrando'n astud ar oedolion a chyfoedion, sy'n cyfrannu'n bwysig at eu dysgu. Er enghraifft, mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n synhwyrol ar gyfarwyddiadau i arbrofi gyda gwrthrychau sy'n suddo neu arnofio yn y dŵr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau gwrando yn ddigon effeithiol ac, o ganlyniad, maent yn colli ffocws yn ystod tasgau, sy'n llesteirio eu dysgu.

Mae llawer yn datblygu medrau darllen cadarn ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn gywir, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig defnyddiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen testunau amrywiol yn y Gymraeg yn ddeallus. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau'n synhwyrol, fel esbonio bod carafán coblyn yn gysyniad dychmygol. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac ynganu'n glir yn y ddwy iaith. Maent yn gwahaniaethu'n dda rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn nodi rhinweddau cymeriadau'n gywir, fel esbonio'n glir fod ambell gymeriad fel nain anghyffredin yn wrthgyferbyniad llwyr i'r disgwyl. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, o wahanol ffynonellau, yn effeithiol.

Mae llawer yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu darnau diddorol fel cerddi acrostig am fywyd y bardd Hedd Wyn a llythyron i'r awdurdod lleol am faterion ailgylchu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn disgrifio'n ystyrlon fywydau ymfudwyr o Ddyffryn Aeron i Ohio 200 mlynedd yn ôl, ac ystyried pwrpas rhannau o'r corff yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu estynedig y disgyblion yn adlewyrchu eu gwir alluoedd ac nid ydynt yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n gadarn mewn rhifedd. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Enghraifft dda yw'r ffordd y mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio darnau arian i brynu llaeth o'u siop chwarae rôl. Yn ogystal, maent yn cymharu tymheredd Dihewyd â Llanelwedd, cyn iddynt deithio o'r pentref i'r Ffair Aeaf. O ganlyniad, maent yn creu bas data effeithiol ac yn arddangos eu canfyddiadau yn bwrpasol ar ffurf graff.

Mae gan y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell ar lawiad yn ystod misoedd y flwyddyn yng nghanolbarth Cymru. Yn ogystal, maent yn creu cyflwyniadau electronig i amlinellu eu strategaethau i greu elw wrth werthu nwyddau yn eu ffair Nadolig. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau rhifedd estynedig yn bwrpasol.

Mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio llechi electronig i gywain gwybodaeth am onglau sgwâr yn effeithiol ac yn animeiddio'n ddeallus i adeiladu golygfa Nadoligaidd. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf addas i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn creu basau data cynhwysfawr i nodi nodweddion corfforol y dosbarth fel maint traed a lliw llygaid. Yn ogystal, maent yn cwestiynu a threfnu'r wybodaeth yn hyderus i ddarganfod patrymau penodol i gyfiawnhau eu dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau diogel yn bwrpasol i fewngofnodi i wefannau dysgu i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn cyfleu teimladau teyrngar am eu hysgol. Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn synhwyrol ac yn ymateb yn aeddfed i'w gilydd, gan fynegi eu barnau yn glir. Mae bron pob un ohonynt yn datgan yn frwd eu bod nhw'n ddiogel ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ofalgar o'i gilydd, yn cydymdeimlo â phryderon eu cyfoedion yn ddeallus ac yn ymddwyn yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhan o'r ardal allanol i ymateb i dristwch a phryderon disgyblion ar y buarth. O ganlyniad, maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff ac yn hyderus bod oedolion yn gwrando arnynt.

Mae'r disgyblion hŷn yn derbyn arweiniad ar sut i gefnogi'r disgyblion iau, gan weithredu hyn yn gydwybodol. Mae hwn yn arfer dda ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ymddygiad synhwyrol bron pob un disgybl. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth glir o bwysigrwydd trin pawb gyda pharch a chwrteisi. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn cymryd gofal o ddisgyblion iau fel 'bydis' yn ystod sesiynau nofio.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn gyson, fel gemau buarth a sesiynau rygbi. Maent yn deall y peryglon all godi yn eu bywyd bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen lleihau'r risg. Mae hyn yn cynnwys gwisgo gwregys ddiogelwch yn y car ac osgoi tân a ffrwydradau ar noson tân gwyllt. Yn ogystal, mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r materion all godi yn sgil defnydd anghyfrifol o'r we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu. Maent yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol ac yn deall bod eu lleisiau'n bwysig i wella'u dysgu. O ganlyniad, maent yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda, fel manteisio ar gyfleoedd i wylio drama ar Eisteddfod y Gadair Ddu 1917.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill, sy’n debyg neu’n wahanol iddyn nhw. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd tosturi a bod cyflwr iechyd yn gallu effeithio ar ansawdd bywydau yn sylweddol. Yn ogystal, mae rhan fwyaf y disgyblion yn wybodus am nodweddion gwledydd a diwylliannau eraill. Maent yn dangos adnabyddiaeth dda o nodweddion arbennig gwledydd tramor. Er enghraifft, maent yn trafod diwylliant Cymreig Patagonia yn dilyn taith y Mimosa yn effeithiol ac yn deall manylion perthnasol ynglŷn â chrefyddau eraill fel Hindŵaeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gydwybodol ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif. Er enghraifft, mae aelodau’r cyngor ysgol yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn dda. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau yn fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. Yn ogystal, maent yn deall pwysigrwydd eu rôl ac yn esbonio eu penderfyniadau dros eraill yn eglur a rhesymegol. Er enghraifft, maent yn cynnig eu syniadau’n ddeallus tuag at geisio am nawdd wrth fusnesau lleol am git pêl-droed newydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang sy’n ennyn diddordeb llawer o’r disgyblion yn effeithiol. Mae’r athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol gan gynnwys ymweliadau gwerthfawr fel gweithgareddau rhifedd gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Maent yn cynllunio themâu diddorol sy’n hybu’r dysgu ac yn ategu at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn ystyried syniadau disgyblion, wrth gynllunio gwersi difyr, sy’n cynnwys llais y disgybl yn achlysurol. O ganlyniad, mae’r athrawon yn addasu'r cynllunio i ddilyn trywyddau disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac maent yn darparu gweithgareddau amrywiol fel adeiladu iglw a chreu cerfluniau dynion eira allan o glai. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus. Yn ogystal, defnyddir yr ardal allanol yn effeithiol i ddatblygu dysgwyr annibynnol wrth iddynt goginio yn y gegin fwd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i’r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau effeithiol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i greu, trefnu a dadansoddi bas data am nodweddion disgyblion yn y dosbarth. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae perthynas waith gefnogol yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae’r athrawon a’r cymhorthydd yn cydweithio’n llwyddiannus, sy’n cefnogi’r dysgu’n dda, trwy gynnig ymyraethau pwrpasol yn ôl yr angen. Maent yn modelu egwyddorion ac agweddau effeithiol, sy’n meithrin cwrteisi, parch a naws ddysgu hwylus. Mae trefniadau’r dosbarthiadau yn gadarn, gyda’r athrawon yn rheoli ymddygiad bron pob disgybl yn effeithiol. O ganlyniad, mae perthynas ofalgar a gweithgar yn bodoli rhwng athrawon a disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r cynllunio ar gyfer gwersi unigol yn drylwyr, gan deilwra'r gweithgareddau er mwyn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau yn ystod gwersi. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn briodol gyda'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn deall meini prawf llwyddiant ac yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain ac eraill. Fodd bynnag, mae gormod o bwyslais ar weinyddu'r cofnodion ynglŷn â'r meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn llesteirio'r cyfleoedd i ddisgyblion ddechrau ar eu dysgu'n brydlon.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, fel perfformiad sioe deithiol i ddysgu am fywyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Maent yn darparu ymweliadau addysgol i leoedd gwahanol yn yr ardal leol fel sbardun i waith thema yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymweld ag amgueddfa wlân leol i ddysgu am ddillad yn ystod rhyfeloedd, ac i ddatblygu medrau gwyddoniaeth gyda phrifysgol yng ngorllewin Cymru.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau addysgu priodol, sy'n dechrau cael effaith gadarn ar safonau llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r athrawon yn herio'r disgyblion i weithio hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai mwyaf galluog. Defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn achlysurol fel rhan o'r addysgu a'r dysgu. Er bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn bodoli, nid ydynt yn cael effaith ar safonau'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ddigon effeithiol. Mae'r athrawon yn modelu iaith raenus ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson. Mae hyn yn nodwedd gref o'u gwaith. O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion hŷn fedrau trawsieithol effeithiol ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar. Mae parchu llais a lles y disgybl yn ganolog i waith ac ethos yr ysgol, sy'n annog disgyblion hyderus a theyrngar. Mae'r naws deuluol yn hyrwyddo parch a chwrteisi ymysg y disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn ymhyfrydu yn eu gweithgareddau dyddiol a'r bartneriaeth iach gyda'r gymuned ehangach. Mae'r holl staff yn canolbwyntio ar gydweithio effeithiol i ddarparu profiadau gwerthfawr i bob disgybl.

Mae trefniadau i olrhain cynnydd addysgol y disgyblion wedi eu mireinio yn ddiweddar. Maent yn fanwl ac yn drylwyr. Gwneir defnydd da o ganlyniadau asesiadau i ddarparu cymorth pwrpasol i'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth olrhain cynnydd bob amser i baratoi gweithgareddau digon heriol i'r disgyblion mwyaf galluog, er mwyn eu hymestyn yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus, trwy gydaddoli rheolaidd a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio yn dawel. Mae sesiynau amser cylch yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion drafod materion pwysig, gan gynnwys hawliau dynol, tegwch, tosturi a chyfiawnder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Caiff eu hanghenion eu hadnabod yn gynnar. Mae'r 'proffiliau un tudalen' yn cael eu cynllunio yn ofalus a'u hadolygu yn drwyadl mewn ymgynghoriad gyda'r disgyblion a'r rhieni. Cryfder y broses hon yw llais y disgybl, sy'n ganolog i'r proffil. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau allanol fel seicolegwyr addysg, unedau iaith a therapyddion iaith a lleferydd. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod pob disgybl ag anghenion yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i wneud cynnydd yn erbyn eu camau dysgu unigol.

Mae perthynas werthfawr a llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cyfle i'r rhieni chwarae rhan allweddol ym mywyd yr ysgol ac i gefnogi addysg y disgyblion yn effeithiol. Mae ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned ofalgar ganddynt, sy'n deillio o barodrwydd yr ysgol i weithredu polisi drws agored ar bob achlysur. O ganlyniad, mae'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r gymuned yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhieni yn cymryd rhan allweddol ym mywyd yr ysgol drwy gynnig cefnogaeth i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau darllen a phrosiect mentergarwch ar gyfer y Ffair Nadolig.

Mae gan yr ysgol drefniadau da i hyrwyddo bwyta'n iach a chadw'n heini. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn tyfu ffrwythau a llysiau i'w gwerthu i'r gymuned, sy'n datblygu eu medrau busnes yn effeithiol. Maent yn darparu gwersi chwaraeon wythnosol, gweithgareddau allgyrsiol achlysurol a gwersi nofio, sy'n cael effaith buddiol ar ddealltwriaeth disgyblion ar sut i gynnal bywydau iachus. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyfartal pwrpasol i ddatblygu eu medrau addysgiadol, corfforol a chreadigol. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys gwersi addysg bersonol i drafod peryglon camddefnyddio sylweddau a sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, y gymuned leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gwasanaethau, eisteddfodau, cystadlaethau chwaraeon a gweithgareddau elusennol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae ymweliadau addysgol i amgueddfeydd a theatrau Ceredigion yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin a'u diwylliant yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol yn bwrpasol i gynnal gweithdai a phrosiectau i hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig a dramâu. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i berfformio a dysgu am eu treftadaeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn annog awyrgylch hapus a theuluol ac wedi sefydlu gweledigaeth synhwyrol ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ofal a lles cadarn. Yn ogystal, mae ei athroniaeth yn canolbwyntio ar wella materion pwysig i'w datblygu, fel gwella llais y disgybl. Pan fo'r pennaeth yn yr ysgol arall sydd dan ei ofalaeth, caiff yr ysgol ei rheoli'n addas gan bennaeth cynorthwyol, sy'n newydd i'w rôl. O ganlyniad, mae'r arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau rheolaethol priodol mewn amser byr, sy'n dosbarthu cyfrifoldebau clir i'r holl staff.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trwyadl a chyfredol yn eu lle. Mae'r arweinwyr yn cyfarfod yn wythnosol i drefnu gweithdrefnau gwella ansawdd defnyddiol. Maent yn

canolbwyntio ar hunanwerthuso’r ddarpariaeth yn bennaf er mwyn gwella ddeilliannau’r disgyblion, fel eu huwch fedrau darllen yng nghyfnod allweddol 2.  O ganlyniad, maent yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn effeithlon, trwy ddilyn amserlen fonitro flynyddol.  Felly, mae’r gweithdrefnau hunanwerthuso yn adeiladu darlun dibynadwy a chywir o’r ysgol.

Mae blaenoriaethau’r cynllun datblygu wedi eu seilio’n uniongyrchol ar ganfyddiadau’r gweithdrefnau hunanwerthuso.  Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a gwella safonau disgyblion, er mai araf yw’r cynnydd yn erbyn ambell flaenoriaeth, fel gwella ysgrifennu’r disgyblion.  Erbyn nawr, mae’r arweinwyr yn dosrannu cyfrifoldebau i ddiwallu blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn effeithiol.  Fodd bynnag, nid yw’r tîm arweinyddiaeth newydd wedi gweithredu’n brydlon yn erbyn ambell darged i wella’r ddarpariaeth a chyflawniadau’r disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gref a chadarn am berfformiad yr ysgol.  Mae ganddynt ddealltwriaeth ddofn o fwriadau’r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn gydwybodol.  Maent yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol, sy’n cynnwys cymhorthydd i gefnogi’r disgyblion ar lawr y dosbarth.  Maent yn herio’n effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fanwl.  Maent yn ymweld â’r dosbarthiadau yn gyson, yn craffu ar waith yn fwriadus ac yn cynnal cyfarfodydd gydag arweinwyr yn rheolaidd.  O ganlyniad, maent yn mesur effaith yr arweinyddiaeth ar y ddarpariaeth a safonau’r disgyblion yn bwrpasol.

Mae’r arweinwyr yn mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol.  Er enghraifft, maent yn dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, trwy ddefnyddio llyfrau ‘heriau’ i ddatblygu medrau datrys problemau ac annibyniaeth disgyblion.  Yn ogystal, mae’r ffocws cryf ar ddatblygu’r siarter iaith yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y disgyblion o’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol yn y dosbarth, ac yn anffurfiol mewn mabolgampau a gemau buarth.

Mae gweithdrefnau effeithiol i ddatblygu’r athrawon yn cysylltu’n uniongyrchol â’r gweithdrefnau rheoli perfformiad.  Maent yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau.  Er enghraifft, maent yn gwella’u harbenigedd yn dda trwy hyfforddiant ynglŷn â sut i wella medrau darllen a TGCh y disgyblion.  O ganlyniad, maent yn rhannu eu harbenigedd gyda’u cydweithwyr yn gyson a sicrhau bod yr hyfforddiant yn effeithio’n gadarnhaol ar ddeilliannau’r disgyblion.

Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o’r staff a’r adeilad.  Mae tir yr ysgol, y gymuned leol a’r ardal ehangach yn cael eu defnyddio’n effeithiol.  Mae’r adnoddau yn yr ardal allanol yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus ac mae ymweliadau i’r felin wlân a’r llyfrgell genedlaethol yn datblygu medrau’r disgyblion ymhellach.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y gyllideb a’r grantiau ychwanegol i ddatblygu’r ddarpariaeth a gwella safonau yn cael eu defnyddio’n effeithlon.  Enghraifft lwyddiannus o hyn yw cyllido profiadau dysgu oddi ar safle’r ysgol sy’n cyfoethogi dysgu’r disgyblion, fel ymweliadau i theatrau yn ninasoedd de Cymru.  Mae’r ysgol a’r llywodraethwyr yn monitro’r cyllid yn dda gan sicrhau ei fod yn cael effaith ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion.  Mae’r gwariant yn cysylltu’n fwriadus â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2019